

# Yn Gryno

Gwanwyn 2016

p2



Helo oddi wrth Trwyddedu Teledu, gwyllo mewn du a gwyn, Gweithdrefn Cyfiawnder Unigol

p3



Trwyddedu Teledu ar daith: MoneyLife Basingstoke

p4



Holi Trwyddedu Teledu

## Animeiddwyr awyddus o brifysgolion blaenllaw yn cystadlu i ddod ag esgusodion Trwyddedu Teledu yn fyw



Gwobr y Beirniaid: myfyrwyr o Brifysgol Middlesex enillodd un o'r prif wobrau

Mae parotiaid, poptai micro-don a Brenin yr Alban wedi cael eu cynnwys ar y rhestr o esgusodion annhebygol, a roddwyd dros y flwyddyn ddiwethaf, dros beidio â chael trwydded deledu. Mae llawer o'r esgusodion ar y rhestr wedi cael eu troi'n animeiddiadau gan bump o brifysgolion animeiddio blaenllaw'r DU, fel rhan o gystadleuaeth genedlaethol.

Mae esgusodion wedi cael eu casglu oddi wrth bobl ledled y DU, sydd wedi ceisio osgoi talu am drwydded deledu. Fe wnaeth un preswylwr yn Plymouth honni

bod y teledu'n cael ei ddefnyddio i anfon ei anifail anwes, pysgodyn aur, i gysgu, a dywedodd un gwylwr teledu yn Glasgow wrth swyddog Trwyddedu Teledu nad oedd angen trwydded arno gan ei fod yn dwyn signal ei gymydog.

Clywyd esgusodion brenhinol rhyfedd hefyd, gydag un gwylwr o Northumbria yn honni nad oes angen trwydded arno gan mai ef oedd Brenin hunanhonedig yr Alban.

Dywedodd Jason Hill, llefarydd Trwyddedu Teledu: "Er bod

animeiddiadau'r myfyrwyr yn hynod ddychmygus, nid oedd gennym feddwl mawr o'r ymagwedd greadigol at esgusodion, oherwydd bod gwyllo neu recordio teledu byw heb drwydded yn erbyn y gyfraith.

I ddod o hyd i'r esgus byw ac animeiddiad gorau, fe wnaeth myfyrwyr cwrs gradd yn Derby, Middlesex, Dundee a Bryste weithio'n greadigol ar ran o'r esboniadau mwyaf amheus am beidio â thalu y mae swyddogion ymweld a staff canolfan alw wedi'u clywed eleni.

Enillodd myfyrwyr o Brifysgol Middlesex, Ida Melum, Kyle Xuereb Cunningham, Adara Penelope Todd a Nicole Smith, Wwobr y Beirniaid ar gyfer eu hanimeiddiad stopio a symud ynglŷn ag esgus am herwyddiad gan estroniaid. Enillwyd Gwobr Dewis y Bobl gan fyfyrwyr o Brifysgol Dundee, Alex Heywood, Mark McGinty a Steve Buntin, am eu fideo 'Brenin yr Alban'."

Gallwch weld yr holl fideos ar [youtube.com/tvlicensing](https://www.youtube.com/tvlicensing)

## Gweithdrefn Cyfiawnder Unigol

Bydd darllenwyr rheolaidd yn gwybod bod yn well gan Trwyddedu Teledu bod pobl yn talu yn hytrach na chael eu herlyn, felly dyna pam rydym yn caniatáu amser sylweddol i bobl dalu a pham rydym yn cynnig ffyrdd i ledaenu'r gost, gan gynnwys cynlluniau talu arian parod wythnosol. Rydym hefyd yn caniatáu penderfyniad y tu allan i'r llys ar gyfer y mwyafrif helaeth o bobl sy'n troseddu am y tro cyntaf (lle mae pobl yn cael prynu trwydded cyn i'r achos fynd i'r llys ac wedyn nid yw'r achos yn mynd ymhellach). Fodd bynnag, rydym yn erlyn troseddwr mynych oherwydd bod gennym ddyletswydd i brofi'r gyfraith. Eleni, mae'r Gweinidog Cyfiawnder yn cyflwyno Gweithdrefn Cyfiawnder Unigol, lle caiff achosion lefel isel, cyfaint uchel (fel osgoi'r drwydded deledu a rhai troseddau'r DVLA) eu hadolygu gan ynad unigol, yn hytrach na'u clywed yn y llys gyda mainc o ynadon a chymorth staff y llys.

# Cyflwyniad i Gweithdrefn Cyfiawnder Unigol

## Parhad o dudalen 1

Mae angen Offeryn Statudol i Trwyddedu Teledu weithredu o dan y Weithdrefn Cyfiawnder Unigol a phan fydd hwn ar waith, bydd Trwyddedu Teledu yn bwriadu gweithio gydag ardaloedd llysoedd i gyflwyno'r Weithdrefn Cyfiawnder Unigol yn raddol. Disgwylir i'r achosion cyntaf gael eu hadolygu yn llys Teesside ym mis Mai. O dan y Weithdrefn Cyfiawnder Unigol, bydd Trwyddedu Teledu yn anfon i'r diffynnydd, yn hytrach na bod y llys yn anfon gwys. Bydd y Weithdrefn Cyfiawnder Unigol yn esbonio bod gan y diffynnydd 21 diwrnod i bledio'n ddiueog neu'n euog. Mae

tri opsiwn ar gyfer ymateb:

1. Pledio'n euog – Nid wyf eisiau mynd i'r llys
2. Pledio'n euog - Rwyf eisiau mynd i'r llys
3. Pledio'n ddiueog – Anfonwch ddyddiad fy nhreial ataf

Os dewisir yr opsiwn cyntaf, bydd yr achos yn cael ei adolygu gan yr ynad ac ni fydd rhaid i'r diffynnydd fynd i'r llys, ond bydd yn derbyn manylion ynghylch unrhyw ddedfryd a dirwy. Os dewisir opsiwn 2 neu 3, bydd y diffynnydd yn derbyn gwys yn rhoi dyddiad ac amser i fynychu'r llys. Bydd yr hysbysiad

Gweithdrefn Cyfiawnder Unigol hefyd yn rhoi manylion ynghylch y cyhuddiad ac yn rhoi cyfle i'r diffynnydd ddarparu lliniariad ar gyfer y drosedd. Bydd y diffynnydd yn gallu cyflwyno ffurflen fodd i'r llys o dan y weithdrefn hon. Mae Trwyddedu Teledu hefyd yn bwriadu anfon atebion ar gyfer Cwestiynau Cyffredin gyda'r hysbysiad Gweithdrefn Cyfiawnder Unigol. Os oes gennyh chi unrhyw gwestiynau ynghylch sut bydd y Weithdrefn Cyfiawnder Unigol yn gweithio ar gyfer achosion Trwyddedu Teledu, rhowch wybod i ni (cyfeiriad y swyddfa ymgyrchu), ac fe wnawn ymateb.

## Gwyllo teledu du a gwyn yn parhau'n uwch na'r disgwyl

Mae'n anodd credu, ond mae mwy na 9,000 o bobl yn y DU yn dal i wyllo teledu du a gwyn.

Bron 50 mlynedd ar ôl i gyn reolydd BBC Two, David Attenborough, rasio i ddarlledu teledu lliw yn y DU cyn ei gydweithwyr teledu yn yr Almaen, mae 9,356 o drwyddedau du a gwyn yn parhau i fod mewn grym yn y DU.

Dywedodd Jeffrey Borinsky, hanesydd technoleg teledu a radio:

“Mae cannoedd o gasglwyr, fel fi, sydd â llawer o setiau teledu du a gwyn; mae rhai ohonynt yn buryddion, sydd ddim eisiau cael teledu lliw yn eu tai. Rydym yn hoffi twyn y falfiau, y swm cyfoethog



ac arogl cynnes hyfryd yr hen setiau hyn. Yn syml, hiraeth pur a llawenydd gweld hen offer yn parhau i weithio yn oes y rhyngwlad.”

Efallai bod angen trwydded lliw ar rai setiau teledu du a gwyn os gallant dderbyn a recordio rhaglenni mewn lliw, er enghraifft, wrth ddefnyddio recordydd fideo personol wedi'i gysylltu â theledu du a gwyn.

Mae cost trwydded deledu du a gwyn yn parhau wedi'i rhewi ar £49, hyd nes Adolygiad Siarter y BBC yn 2016. Mae trwydded lliw yn costio £145.50. Mae arnoch angen trwydded deledu os ydych yn gwyllo neu'n recordio rhaglenni ar yr un pryd ag y maent yn cael eu dangos ar y teledu, a gallwch ei phrynu ar-lein mewn munudau ar [tvlicensing.co.uk/info](http://tvlicensing.co.uk/info).

## Helo oddi wrth Trwyddedu Teledu

Croeso i rifyn cyntaf InBrief yn 2016. Rydym yn gwybod nad yw dechrau blwyddyn newydd yn hawdd i rai pobl, yn enwedig y cleientiaid a chwsmeriaid hynny sy'n gweithredu ar gyllidebau ceiniog a dimai. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau sy'n rhoi cyngor ariannol ledled y wlad yn ystod yr amser hwn o'r flwyddyn i sicrhau bod pawb sydd angen trwydded deledu yn deall yr holl opsiynau talu sydd ar gael iddyn nhw.

Yn rhanbarthol, rydym wedi bod yn gweithio gyda nifer o grwpiau yn darparu cyngor a chymorth

gwerthfawr mewn cymunedau lleol. Mae'r rhain yn cynnwys Trent Debt Advice, Glasgow Old People's Welfare Association, Ipswich Housing Action Group a nifer o sefydliadau eraill ledled y DU. Bydd ein perthnasoedd gyda'r grwpiau hyn – a llawer o sefydliadau eraill ledled y DU – yn hanfodol yn ystod y flwyddyn sy'n addo bod yn un arwyddocaol ar gyfer Trwyddedu Teledu

Yn gynharach y mis hwn, cadarnhaodd y Llywodraeth fod cytundeb wedi cael ei gyrraedd ar waredu'r eithriad ar gyfer iPlayer “cyn gynted ag sy'n ymarferol”. Mae hyn yn golygu y bydd angen trwydded deledu ar y rheiny sy'n gwyllo unrhyw gynnwys ar BBC iPlayer, nid – fel y mae nawr – ar gyfer gwyllo teledu byw yn unig.



Wrth gwrs, bydd gan y mwyafrif helaeth o bobl drwydded eisoes.

Os ydych chi o'r farn y gallai eich sefydliad chi elwa ar weithio gyda ni, cysylltwch â mi ar [campaignoffice@tvlicensing.co.uk](mailto:campaignoffice@tvlicensing.co.uk) i gael mwy o wybodaeth.

**Dan Higgins**  
Golygydd, InBrief



# Trwyddedu Teledu ar daith



**Mae Trwyddedu Teledu yn gweithio'n agos â sefydliadau cymunedol ledled y DU. Yn y rhifyn hwn, byddwn yn canolbwyntio ar Money Lifeline. Mae InBrief yn siarad â'r cynghorydd a'r ymddiriedolwr, David Evans, wrth i'r elusen barhau i helpu'r gymuned yn Basingstoke.**

## 1. Yn gryno, pa wasanaethau y mae Money Lifeline Basingstoke yn eu cynnig?

Mae Money Lifeline yn elusen cyngor ar ddyledion a sefydlwyd gan yr eglwys yn Basingstoke i gynorthwyo pobl mewn argyfwng dyledion. Rydym yn rhoi cyngor ar fudd-daliadau ac incwm, yn cynghori ar sefydlu cyllidebau ac yn awgrymu ffyrdd i reoli arian. Rydym yn trafod gyda chredydwr i helpu pobl i ddod o hyd i ffordd i ddatrys eu problemau ariannol. Mae ein gwasanaeth yn rhad ac am ddim. Yn aml, rydym yn gallu cytuno ar amserlen ad-dalu fforddiadwy, ond weithiau mae problemau'n anoddach a, lle y bo'n briodol, rydym yn helpu pobl trwy wrandawriadau llys, mynd i'r afael â budd-daliadau a gwneud cais am fethdaliad neu orchymyn rhyddhau o ddyledion.

## 2. Beth yw eich rôl a beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am eich swydd?

Rwy'n aelod o dîm o gynghorwyr sy'n wirfoddolwyr, sy'n canolbwyntio ar weld cleientiaid wyneb yn wyneb ac yn ceisio cynorthwyo. Mae hyn yn cynnwys gohebiaeth a chyswllt dros y ffôn gyda chredydwr ar ran cleientiaid, yn ogystal ag ymdrin â'r llysoedd, beiliaid a cheisiadau methdaliad weithiau. Hefyd, rwy'n un o ddau o reolwyr yn y Ganolfan sy'n arwain ar wneud yn siŵr bod gennym systemau, polisïau a gweithdrefnau ar waith i ymateb yn briodol i gleientiaid a gwneud yn siŵr ein bod ni'n trin cleientiaid yn deg yn unol â gofynion y rheoleiddiwr, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA).

## 3. Beth yw'r problemau cyffredin y mae eich cleientiaid yn delio â nhw ar hyn o bryd?

Mae pob cleient yn wahanol, ond mae ein cleient cyffredin yn fwy tebygol o fod yn fenyw nag yn ddyn, yn fwy tebygol o fod â phlant ac yn rhiant sengl, a chanddynt llawer o broblemau yn eu bywyd sy'n bygwth eu gorlwytho. Rydym yn gweld cleientiaid yn rheolaidd gydag ôl-ddyledion rhent a'r dreth gyngor, yn ogystal â dyledion gwasanaethau a llawer o ddyledion ffôn. Ond, yn ddiweddar, mae cleientiaid wedi bod yn ei chael hi'n anoddach nag erioed o'r blaen gyda budd-daliadau – naill ai oherwydd sancsiynau neu oherwydd nad ydynt yn gallu gwneud i'r arian ymestyn mor bell ag y dymunant.

## 4. Dywedwch wrthym am ymgyrch neu brosiect diweddar rydych wedi gweithio arno – pam yr oedd mor llwyddiannus?

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gorfod treulio llawer o amser yn paratoi ein cais i'r FCA. Mae'r corff hwn wedi cymryd cyfrifoldeb dros reoli credyd defnyddwyr oddi wrth y Swyddfa Masnachu Teg, ac roedd angen i ni ailymgeisio. Mae gofynion yr FCA yn llym iawn ac rydym wedi gorfod gwneud yn siŵr ein bod ni'n deall y rhain, a bod ein polisïau a'n gweithdrefnau yn unol â gofynion yr FCA. Mae wedi bod yn llawer o waith ac yn rhwystredig mewn rhai ffyrdd – ond, ychydig ar ôl y Nadolig, clywsom ein bod ni wedi cael ein hawdurdodi ac y gallem barhau i helpu pobl leol mewn argyfwng. Mae'r FCA yn gwneud gwaith pwysig yn sicrhau bod

pobl sy'n agored i niwed yn cael eu cynghori'n gywir ac nad yw benthydwyr diegwyddor yn cymryd mantais ohonynt. Mae gwneud cais am awdurdod wedi golygu ein bod ni wedi gorfod ailgyfeirio ychydig o amser ac ymdrech oddi wrth gyngor cleientiaid, ond yr oedd yn hanfodol ein bod ni'n gwneud hyn er mwyn sicrhau y gallem barhau. Dechrau da i 2016 felly.

## 5. Beth yw buddion sefydliadau'n ffurfio partneriaethau gyda Trwyddedu Teledu?

Mae Trwyddedu Teledu wedi bod yn gynorthwyol iawn o ran arweiniad a chngor cyffredinol, mynychu sesiynau hyfforddi ac ymateb i ymholiadau ynghylch cleientiaid penodol. Yn rhy aml, mae credydwr neu asiantaethau'n bell ac yn rhwystrol, ond mae Trwyddedu Teledu yn deg, yn broffesiynol ac yn hawdd cysylltu â nhw. Gyda chleientiaid, rydym yn siarad am wneud yn siŵr eu bod nhw'n talu'r pump peth pwysicaf yn gyntaf: rhent, y dreth gyngor, nwy, trydan a'r drwydded deledu. Mae'n rhyfeddol faint o bobl sy'n drysu o ran eu blaenoriaethau neu sy'n credu nad oes angen iddyn nhw dalu am drwydded deledu oherwydd bod ganddyn nhw wasanaeth tanysgrifiol, fel Sky neu Virgin Media. Mae llenyddiaeth a chymorth Trwyddedu Teledu yn golygu ein bod ni'n hyderus yn y cyngor y gallwn ei roi ac yn hapus y byddwn yn gallu trefnu ffordd fforddiadwy i dalu am y drwydded.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Money Lifeline ar 01256 351026 neu [moneylifeline@btinternet.com](mailto:moneylifeline@btinternet.com)



# Holi Trwyddedu Teledu

Mae Tîm Cysylltiadau Cymunedol Trwyddedu Teledu yn siarad â channoedd o sefydliadau bob blwyddyn i wneud yn siŵr bod pobl yn deall pryd mae angen trwydded arnynt a sut i dalu. Rydym yn aml yn mynychu cynadleddau, yn darparu gweithdai, ac yn cynnal sesiynau holi ac ateb. Fel rhan o nodwedd reolaidd, rydym yn darparu atebion i gwestiynau cyffredin. Oes gennych gwestiwn? Anfonwch neges e-bost at [campaignoffice@tvlicensing.co.uk](mailto:campaignoffice@tvlicensing.co.uk) neu ffoniwch 020 875 26537.

## A oes angen trwydded deledu ar Bersonél y Lluoedd Arfog?

Yn llety byw'r Weinyddiaeth Amddiffyn, ar y safle neu oddi ar y safle, mae arnoch angen trwydded deledu, os ydych yn gwyllo neu'n recordio rhaglenni wrth iddyn nhw gael eu dangos ar y teledu - ar unrhyw ddyfais. Mae hyn yn cynnwys setiau teledu, cyfrifiaduron, llechi, ffonau symudol, consolau gemau, blychau digidol a recordwyr DVD/VHS.

Os bydd personél y lluoedd arfog yn symud dramor, efallai y byddant yn gallu hawlio ad-daliad ar eu trwydded. I gael mwy o wybodaeth, gallant fynd i dudalennau pwrpasol y Lluoedd Arfog ar wefan Trwyddedu Teledu ar [tvlicensing.co.uk/armedforces](http://tvlicensing.co.uk/armedforces), sy'n cynnig atebion pendant i'r cwestiynau mwyaf cyffredin am drwyddedu teledu, neu gallant fynd i'w HIVE lleol neu swyddfa weinyddol eu huned.

## A oes angen trwydded deledu ar fy nghleient os yw'n gwyllo teledu byw o dramor?

Oes, bydd angen trwydded, hyd yn oed os yw'n gwyllo neu'n recordio rhaglenni sy'n cael eu darlledu o'r tu allan i'r DU yn unig. Mae arnoch angen trwydded deledu i wyllo neu recordio rhaglenni wrth iddyn nhw gael eu dangos ar y teledu neu'n fyw ar wasanaeth teledu ar-lein, ni waeth pa ddyfais yr ydych yn ei defnyddio. Mae hyn yn cynnwys setiau teledu, cyfrifiaduron, llechi, ffonau symudol, consolau gemau, blychau digidol a recordwyr DVD/VHS. Hefyd, ar gyfer cleientiaid nad ydynt yn siarad Saesneg fel mamiaith, rydym yn cynnig adnoddau sy'n esbonio pwy sydd angen trwydded deledu, faint mae'n costio, sut gallwch dalu am un a pha gonsesiynau sydd ar gael, mewn nifer o ieithoedd gwahanol. I'w lawrlwytho, ewch i [tvlicensing.co.uk/community-relations/](http://tvlicensing.co.uk/community-relations/)

## Diweddariad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae Trwyddedu Teledu yn parhau i wella gwybodaeth ar gyfer cwsmeriaid, fel rhan o'n hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Dyma grynoded o'n gwelliannau diweddaraf:

- Mae tudalen hygyrchedd newydd ein gwefan yn darparu cyfeiriadau at amrywiaeth o wybodaeth, gan gynnwys ble i gael cyngor ar ddyledion.
- Proses well i gynorthwyo cwsmeriaid sy'n cysylltu â ni ar ran ffrind neu berthynas sydd ag anabledd meddwl neu gorfforol.
- Rydym wedi gwneud gwelliannau i dudalen Gymraeg ein gwefan, gan gynnwys ei gwneud hi'n haws cysylltu â Thîm Gymraeg Trwyddedu Teledu.

## Ffyrdd o dalu: Mae sawl ffordd y gallwch dalu am drwydded deledu

### Debyd Uniongyrchol

Ffoniwch 0300 790 6112 i sefydlu taliad Debyd Uniongyrchol misol, chwarterol neu flynyddol. Mae'r mwyafrif o gwsmeriaid yn defnyddio Debyd Uniongyrchol bellach, ac mae'n bosibl ei sefydlu ar-lein ar [tvlicensing.co.uk/payinfo](http://tvlicensing.co.uk/payinfo).

### Cerdyn Debyd a Chredyd

Ffoniwch 0300 790 6112 i dalu gyda cherdyn debyd neu gredyd. Mae'r cyfleuster hwn yn derbyn taliadau gan amrywiaeth o gardiau debyd, gan gynnwys Maestro/Switch a Delta. Gallwch dalu ar-lein hefyd ar [tvlicensing.co.uk/payinfo](http://tvlicensing.co.uk/payinfo).

### Drwy'r post

Anfonwch sic yn daladwy i TV Licencing i: Customer Services, TV Licencing, Darlington, DL98 1TL

### Dros y cownter

Gallwch wneud taliadau'n bersonol yn un o fwy

na 24,000 o allfeydd PayPoint ledled y DU. Ewch i [paypoint.co.uk/locator](http://paypoint.co.uk/locator) i ddod o hyd i'ch allfa agosaf. I ddarganfod mwy am ddefnyddio PayPoint i wneud taliad o dan y cynllun talu ag arian parod, ffoniwch 0300 555 0300.

### Cerdyn Cynilo Trwyddedu Teledu

Mae Cerdyn Cynilo Trwyddedu Teledu wedi cael ei dylunio i helpu pobl i gynilo tuag at gost eu trwydded deledu mewn symiau bach, posibl. Gall pobl wneud taliad ar unrhyw adeg, naill ai ar-lein, trwy neges destun, mewn allfa PayPoint neu dros y ffôn. Ffoniwch 0300 555 3434 i gael mwy o wybodaeth.

### Rhifau defnyddiol eraill

Rhoi gwybod am newid cyfeiriad	0300 790 6112
Cynllun y taliad arian parod	0300 790 6078
Cais am lenyddiaeth Trwyddedu Teledu	0208 752 6537
Cyfleuster amlieithyddol	0300 790 6044
Cyfleuster Minicom	0300 790 6050



Dilynwch ni ar [Twitter](https://twitter.com)



Gwylwch ni ar [YouTube](https://www.youtube.com)



Gwrandewch arnom ni ar [AudioBoom](https://www.audioboom.com)